

## Rhaid i chi argraffu'r ffurflenni yn y pecyn hwn cyn eu cyflwyno

### Rhaid cyflwyno'r papurau canlynol yn bersonol:

1a: Ffurflen enwebu

1b: Ffurflen cyfeiriad cartref (rhan 1 a rhan 2)

1c: Cydsyniad ymgeisydd i enwebiad

### Gall y papurau canlynol gael eu cyflwyno'n bersonol neu drwy'r post:

2a a 2b: Tystysgrif awdurdodi

3: Hysbysiad o asiant etholiad

4: Hysbysiad o is-asiant

Bydd yr hysbysiad etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn nodi'r amseroedd a'r union leoliad lle mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu.

Pan fo angen llofnodion, sicrhewch eich bod yn cyflwyno'r **fersiwn wreiddiol a lofnodwyd** ar gyfer pob papur a gwblhawyd. Ni ellir derbyn dogfennau heb lofnodion gwreiddiol.

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gymwys i brosesu pob math o ddata personol. Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnoch chi.

Wrth gasglu gwybodaeth am danysgrifwyr, dylech nodi at ba ddibenion y caiff y wybodaeth ei defnyddio, a sut y caiff data personol eu prosesu a'u cadw'n ddiogel. Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflenni hyn yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Dylech hefyd esbonio y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Swyddog Canlyniadau. I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu data a phrosesu data, dylech gyfeirio at hysbysiad preifatrwydd y Swyddog Canlyniadau ar ei wefan.

# Cynnwys

<b>Rhif y ffurflen</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Math o ymgeisydd</b>
<b>CL</b>	Rhestr wirio ar gyfer ymgeiswyr etholaeth	Pob un (canllaw yn unig)
<b>1a</b>	Ffurflen enwebu	Pob un
<b>1b</b>	Ffurflen cyfeiriad cartref	Pob un
<b>1c</b>	Cydsynio ag enwebiad	Pob un
<b>2a</b>	Tystysgrif awdurdodi	Ymgeiswyr plaid yn unig
<b>2b</b>	Tystysgrif awdurdodi ar gyfer ymgeiswyr ar y cyd	Ymgeiswyr plaid yn unig
<b>3</b>	Hysbysiad o asiant etholiad	Pob un
<b>4</b>	Hysbysiad o is-asiant	Pob un (opsiynol)

CL	Etholiad y Senedd	Rhestr wirio ar gyfer ymgeiswyr
----	-------------------	---------------------------------

Bwriedir i'r rhestr wirio hon helpu ymgeiswyr etholaeth yn etholiadau'r Senedd i baratoi i gyflwyno eu henwebiad, a dylid ei darllen ochr yn ochr â [Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

Tasg	Tic
<b>Ffurflen enwebu (pob ymgeisydd)</b>	
Rhowch enw'r etholaeth a dyddiad yr etholiad – holwch y Swyddog Canlyniadau Etholaethol os nad ydych yn siŵr	
Ychwanegwch eich enw llawn – cyfenw a phob enw arall yn llawn yn y blychau perthnasol	
Opsiynol – Defnyddiwch y blwch neu'r blychau ar gyfer enw(au) cyffredin os ydych yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw sydd gennych ac yr hoffech iddo gael ei ddefnyddio yn lle'ch enw llawn	
Disgrifiad – Gall ymgeiswyr plaid ddefnyddio enw neu ddisgrifiad o blaid a gofrestrwyd â'r Comisiwn Etholiadol ac a gefnogir gan dystysgrif awdurdodi gan y blaid honno; gall eraill ddefnyddio 'Annibynnol' neu adael hwn yn wag. Gall ymgeiswyr plaid ddefnyddio fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu fersiwn ddwyieithog o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru ar wefan y Comisiwn: <a href="http://search.electoralcommission.org.uk/">http://search.electoralcommission.org.uk/</a> a'u bod wedi'u cefnogi gan dystysgrif awdurdodi. Os nad yw enw'r blaid gofrestredig yn cynnwys 'Cymru' neu 'Welsh', yna caniateir ychwanegu 'Cymru' neu 'Welsh' yn y blwch disgrifiad ar y papur enwebu.	
Tanysgrifiwr – rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei llofnodi gan un person, a allai fod yr ymgeisydd. Os bydd rhywun arall yn llofnodi'r ffurflen, bydd angen i'r unigolyn hwnnw hefyd roi ei enw llawn a'i gyfeiriad llawn; nid oes angen i'r cyfeiriad hwn fod yn yr etholaeth.	
Sut y dylid cyflwyno'r ffurflen enwebu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol. Dim ond chi, eich asiant etholiad (ar yr amod eich bod wedi rhoi hysbysiad o benodiad i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu fod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno pan gyflwynir y ffurflen enwebu) neu, os ydych yn sefyll ar ran plaid wleidyddol, Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar ei ran) a gaiff gyflwyno'r ffurflen enwebu	
<b>Ffurflen cyfeiriad cartref yr ymgeisydd (Rhan 1)</b>	
Ychwanegwch eich enw llawn.	
Ychwanegwch eich cyfeiriad cartref yn llawn.	
<b>Rhan 2 (i'w chwblhau os na fyddwch am i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi)</b>	
Nodwch ym mha etholaeth Senedd Cymru y mae eich cyfeiriad cartref, neu os yw eich cyfeiriad y tu allan i Gymru, ym mha etholaeth Seneddol (Senedd y DU); neu os yw eich cyfeiriad tu allan i'r DU, ychwanegwch enw'r wlad.	
Ychwanegwch lofnod	
Ychwanegwch ddyddiad y lofnod	
Sut y dylid cyflwyno'r ffurflen i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol (ond heb fod yn gyfyngedig i chi neu eich asiant), gyda'r ffurflen enwebu. Ni ellir ei phostio, ffacsio, e-bostio na defnyddio unrhyw gyfrwng electronig arall.	

<b>Cydsyniad ymgeisydd i enwebiad (pob ymgeisydd)</b>	
Cwblhewch yr holl fanylion ar y ffurflen a darllenwch y datganiad yn ofalus. Sicrhewch eich bod yn darllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar sefyll etholiad yn ogystal â'r ddeddfwriaeth a restrir. Os nad ydych yn siŵr a allwch sefyll, dylech gysylltu â'ch cyflogwr (lle bo'n berthnasol), darllen y ddeddfwriaeth neu, os oes angen, geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun. Os byddwch yn fodlon eich bod yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ac felly eich bod yn gymwys i sefyll, llofnodwch y datganiad	
Ychwanegwch eich enw llawn	
Ychwanegwch eich dyddiad geni llawn	
Ychwanegwch gyfeiriad y gellir ei ddefnyddio fel cyfeiriad swyddfa rhag ofn y bydd angen i chi fod yn asiant etholiad i chi eich hun	
Llofnodwch y ddogfen a rhoi dyddiad. Peidiwch â llofnodi'r ffurflen gydsynio yn gynharach na mis cyn y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno eich papurau enwebu	
Sut y dylid cyflwyno'r ffurflen cydsynio ag enwebiad i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y diben hwnnw.. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r ffurflen, ond dylai fod yn rhywun rydych yn ymddiried ynddo. Os ydych y tu allan i'r DU dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol am gymorth.	
<b>Tystysgrif awdurdodi i ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid (ymgeiswyr plaid yn unig)</b>	
Sicrhewch fod y dystysgrif yn cynnwys enw llawn yr ymgeisydd a bod y manylion eraill yn gyflawn	
Sicrhewch fod y dystysgrif yn caniatáu defnyddio enw neu ddisgrifiad y blaid gofrestredig fel y nodir ar y ffurflen enwebu (neu'n caniatáu i chi ddewis defnyddio enw'r blaid neu unrhyw ddisgrifiad cofrestredig)	
Sicrhewch ei bod yn cael ei llofnodi gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i wneud hyn ar ei ran)	
Ysgrifennwch enw neu ddisgrifiad o arwyddlun a gofrestrwyd gan y blaid ac a gyhoeddwyd ar <a href="#">wefan y Comisiwn Etholiadol</a> , gan sicrhau ei fod wedi'i lofnodi gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd ganddo'n ysgrifenedig i wneud hyn ar ei ran).	
Sut y dylid cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol neu drwy'r post. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r dystysgrif, ond dylai fod yn rhywun rydych yn ymddiried ynddo	
<b>Tystysgrif awdurdodi i ymgeisydd sy'n sefyll ar ran dwy blaid neu fwy (ymgeiswyr plaid yn unig)</b>	
Sicrhewch fod y dystysgrif yn cynnwys enw llawn yr ymgeisydd a bod y manylion eraill yn gyflawn	
Sicrhewch fod y dystysgrif yn caniatáu i chi ddefnyddio cyd-ddisgrifiad cofrestredig fel y nodir ar y ffurflen enwebu (neu'n caniatáu i chi ddewis defnyddio unrhyw gyd-ddisgrifiad cofrestredig)	
Sicrhewch ei bod yn cael ei llofnodi gan bob un o Swyddogion Enwebu perthnasol y blaid (neu rywun a benodwyd ganddynt yn ysgrifenedig i wneud hyn ar eu rhan)	
Ysgrifennwch enw neu ddisgrifiad o arwyddlun a gofrestrwyd gan un o'r pleidiau ac a gyhoeddwyd ar <a href="#">wefan y Comisiwn Etholiadol</a> , gan sicrhau ei fod wedi'i lofnodi gan Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd ganddo'n ysgrifenedig i wneud hyn ar ei ran).	

Sut y dylid cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol neu drwy'r post. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r dystysgrif, ond dylai fod yn rhywun rydych yn ymddiried ynddo	
<b>Hysbysiad o asiant etholiad (pob ymgeisydd)</b>	
Rhowch enw a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiad penodedig	
Sicrhewch fod yr asiant a benodwyd yn llofnodi'r ffurflen er mwyn dangos ei fod yn derbyn	
Sut y dylid cyflwyno'r ffurflen hysbysu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol neu drwy'r post. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r ffurflen, ond dylai fod yn rhywun rydych yn ymddiried ynddo	
<b>Hysbysiad o is-asiant (pob ymgeisydd)</b>	
Caiff yr benodi un neu fwy o is-asiantiaid i weithredu ar ei ran, ond mae'n rhaid bod gan bob un ardal ar wahân (e.e. gallai'r asiant etholiad benodi un is-asiant ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn yr etholaeth). Ni ddylai ardaloedd is-asiantiaid orgyffwrdd. Trafodwch â'ch asiant p'un a yw am benodi unrhyw is-asiantiaid a faint o ardal a gwmpesir ganddynt	
Rhowch enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa'r is-asiant(iaid) penodedig	
Sut y dylid cyflwyno'r ffurflen(ni) hysbysu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol: yn bersonol neu drwy'r post. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r rhain, ond dylai fod yn rhywun rydych yn ymddiried ynddo	
<b>Ernes (pob ymgeisydd)</b>	
Cadarnhewch â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol fod eich dewis ddull o dalu yn dderbyniol a rhowch ernes o £500 iddo erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau	

- Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol er mwyn gallu argraffu bob ochr -

At ddefnydd swyddfa yn unig		Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrennau cyntaf	Rhif
<b>Ethol aelod i wasanaethu yn Senedd Cymru</b>			<b>1a – Papur enwebu</b>		
Casnewydd Dwyrain		Etholaeth			
Dyddiad yr etholiad:		6 Mai, 2021			

Mae'r sawl a nodir isod wedi'i enwebu drwy hyn fel ymgeisydd yn yr etholiad uchod.  
(Cwblhewch mewn priflythrennau)

Cyfenw'r ymgeisydd	
Enw(au) eraill yn llawn	
Cyfenw a ddefnyddir fel arfer (os yn berthnasol)	
Enwau cyntaf a ddefnyddir fel arfer (os yn berthnasol)	
Disgrifiad (os yn berthnasol)	

Llofnod tanysgrifiwr:		Dyddiad:	
Enw:			
Cyfeiriad:			

Gweler y nodiadau drosodd

## Nodiadau

1. Tynnir eich sylw at y rheolau sydd ynghlwm wrth gwblhau papurau enwebu a rheolau eraill sy'n ymwneud ag enwebiadau a nodir yn Atodlen 5 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd).
2. Lle bo ymgeisydd fel arfer yn cael ei adnabod gan ryw deitl, gellir defnyddio'r teitl hwnnw fel pe bai'n gyfenw iddo.
3. Pan fydd ymgeisydd fel arfer yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw arall sydd ganddo, gall yr enw a ddefnyddir fel arfer hefyd ymddangos ar y papur enwebu, ond os yw hynny'n digwydd, yr enw a ddefnyddir fel arfer (yn hytrach nag unrhyw enw arall) fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio.
4. Ond bydd y papur pleidleisio yn dangos yr enw arall os yw'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn credu –
  - (a) y gallai defnyddio'r enw a ddefnyddir fel arfer fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu
  - (b) bod yr enw a ddefnyddir fel arfer yn anwedus neu'n dramgwyddus.

At ddefnydd swyddfa yn unig	Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrennau cyntaf	Rhif
<b>Etholiadau Senedd Cymru</b>	<b>1b – Ffurflen cyfeiriad cartref</b>			
Enw'r etholaeth	Casnewydd Dwyrain			
Dyddiad yr etholiad:	6 Mai, 2021			

- Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhan 1
- Dim ond os na fyddwch am i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi y dylech gwblhau Rhan 2

<b>Rhan 1: I'w cwblhau gan bob ymgeisydd</b>	
Enw llawn yr ymgeisydd	
Cyfeiriad cartref (yn llawn)	
Cod post	
Diwedd Rhan 1.	

Os ydych ond yn cwblhau Rhan 1 dylech nawr gyflwyno'r ffurflen hon gyda'r papur enwebu i'r Swyddog Canlyniadau gyda'r papur enwebu perthnasol.

<b>Rhan 2: Dim ond os na fyddwch am i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi y dylech gwblhau'r rhan hon.</b>	
Os na fyddwch am i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi yna ni fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio.	
Os byddwch yn dewis peidio â gwneud eich cyfeiriad cartref yn gyhoeddus, bydd yr etholaeth y lleolir eich cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad, os yw'r tu allan i'r DU) yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio.	
Datganiad: Nid wyf am i'm cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi	
Yr etholaeth y lleolir fy nghyfeiriad cartref ynddi:	(nodwch enw etholaeth Senedd Cymru, neu os yw'r ymgeisydd yn byw tu allan i Gymru, etholaeth Senedd y DU)
Lleolir fy nghyfeiriad cartref y tu allan i'r DU. Lleolir fy nghyfeiriad cartref yn:	(rhowch enw'r wlad)
Llofnod yr ymgeisydd sy'n cwblhau Rhan 2	
Llofnod yr ymgeisydd:	
Dyddiad:	

Cyflwynwch i'r Swyddog Canlyniadau gyda'r papur enwebu perthnasol

At ddefnydd swyddfa yn unig	Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrenna u cyntaf	Rhif
<b>Etholiadau Senedd Cymru</b>	<b>1c – Cydsyniad ymgeisydd i enwebiad</b>			
Enw'r etholaeth	Casnewydd Dwyrain			
Dyddiad yr etholiad:	6 Mai, 2021			

Yr wyf i (enw'r ymgeisydd yn llawn):			
Cyfeiriad swyddfa rhag ofn y bydd angen i chi fod yn asiant etholiad			
<p>drwy hyn yn cydsynio i gael fy enwebu fel ymgeisydd yn yr Etholiad a nodir uchod.</p> <p>Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred nid wyf wedi fy anghymhwysu rhag cael fy ethol o dan adran 16(A1) o Ddeddf 2006 (anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r Senedd)</p> <p>Nid wyf yn ymgeisydd yn yr un etholiad mewn unrhyw etholaeth arall lle caiff y bleidlais ei chynnal ar yr un diwrnod â'r bleidlais yn yr etholiad y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef.</p>			
Fy nyddiad geni yw:	Diwrnod (DD)	Mis (MM)	Blwyddyn (BBBB)
<b>Noder: Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir a hynny'n fwriadol.</b>			
Llofnod yr Ymgeisydd:		Dyddiad:	

Cyflwynwch y ffurflen hon i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn y dyddiad cau ar gyfer Enwebiadau

Gweler y nodiadau drosodd

## Nodiadau

1. Ni fydd unigolyn wedi'i enwebu'n ddilys oni fydd ei gydsyniad i enwebu –
  - (a) wedi'i roi a'i ddyddio'n ysgrifenedig ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, neu yn y mis cyn hynny;
  - (b) wedi'i gyflwyno yn y man ac o fewn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau enwebu neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y diben hwnnw.,.
2. Rhaid bod y cyfeiriad a roddir yn yr adran 'Cyfeiriad swyddfa rhag ofn y bydd angen i chi fod yn asiant'
  - a) yn etholaeth y Senedd y cynhelir yr etholiad ar ei chyfer neu mewn etholaeth Senedd gyfagos; neu
  - b) mewn sir neu fwrdeistref sirol sy'n rhannol o fewn yr etholaeth Senedd a grybwyllwyd gyntaf neu'n ffinio â'r etholaeth honno

At ddefnydd swyddfa yn unig	Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrenna u cyntaf	Rhif
<b>Etholiadau Senedd Cymru</b>	<b>2a – Tystysgrif awdurdodi</b>			

I gyd-fynd ag enwebu ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig.

**Yn unol â rheol 5(1) o Atodlen 5 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, ardystiaf drwy hyn-**

mai	<i>[enw'r ymgeisydd yn llawn]</i>
yw ymgeisydd swyddogol	<i>[enw'r blaid wleidyddol gofrestredig]</i>
yn yr etholiad yn Etholaeth Senedd Cymru	<i>[enw'r etholaeth]</i>
ar	<i>[dyddiad yr etholiad]</i>

a bod y disgrifiad<sup>(1)</sup> o'r ymgeisydd sy'n ymddangos ar y papur enwebu yr enwebir yr ymgeisydd drwyddo wedi'i awdurdodi gan y blaid.

Llofnodwyd (Swyddog Enwebu cofrestredig):		Dyddiad	
Enw:			
Cyfeiriad:			

<sup>(2)</sup> Rwyf hefyd yn gofyn am i arwyddlun cofrestredig y blaid	<i>[neu, os oes mwy nag un arwyddlun cofrestredig<sup>(3)</sup>, nodwch pa un]</i>
--	--

ymddangos ar y papur pleidleisio yn erbyn enw'r ymgeisydd

Llofnodwyd (Swyddog Enwebu cofrestredig)		Dyddiad	
--	--	---------	--

**Nodiadau**

1. Mae'r disgrifiad yn golygu naill ai enw neu enwau cofrestredig y blaid neu ddisgrifiad a gofrestrwyd o dan adran 28A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Pan fydd enw'r blaid gofrestredig yn cael ei roi ac nad yw'r enw yn cynnwys 'Cymru' neu 'Welsh', yna caniateir ychwanegu 'Cymru' neu 'Welsh' at enw'r blaid gofrestredig.
2. Os na chaiff y paragraff hwn ei gwblhau ni fydd arwyddlun cofrestredig y blaid yn ymddangos ar y papur pleidleisio yn erbyn enw'r ymgeisydd.
3. Lle bo mwy nag un arwyddlun cofrestredig byddai'n ddefnyddiol petai'r arwyddlun y gofynnwyd iddo ymddangos ar y papur pleidleisio yn cael ei nodi drwy gyfeirio at gynrychiolaeth o'r arwyddlun sy'n cyd-fynd â'r dystysgrif hon.

At ddefnydd swyddfa yn unig

Dyddiad  
derbyn

Amser  
derbyn

Llythrenna  
u cyntaf

Rhif

## Etholiadau Senedd Cymru

## 2b – Tystysgrif awdurdodi

I gyd-fynd ag enwebu ymgeisydd sy'n sefyll ar ran **dwy** blaid wleidyddol gofrestredig.

**Yn unol â rheol 5(3) o Atodlen 5 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, ardystiwn drwy hyn-**

Mai	<i>[enw'r ymgeisydd]</i>
yw ymgeisydd swyddogol	<i>[enw'r blaid wleidyddol gofrestredig]</i>
A	<i>[enw'r blaid wleidyddol gofrestredig]</i>
yn yr etholiad yn Etholaeth Senedd Cymru	<i>[enw etholaeth y Senedd]</i>
ar	<i>[dyddiad yr etholiad]</i>

Mae'r disgrifiad<sup>(1)</sup> o'r ymgeisydd sy'n ymddangos ar y papur enwebu yr enwebir yr ymgeisydd drwyddo wedi'i awdurdodi gan y ddwy blaid.

Llofnodwyd		Enw	
Swyddog Enwebu cofrestredig	<i>[enw'r blaid]</i>		
Cyfeiriad		Dyddiad	

Llofnodwyd		Enw	
Swyddog Enwebu cofrestredig	<i>[enw'r blaid]</i>		
Cyfeiriad		Dyddiad	

<sup>(2)</sup>Rydym yn gofyn am i'r arwyddlun a atodir, sef arwyddlun cofrestredig

*[enw'r blaid wleidyddol]*

ymddangos ar y papur pleidleisio yn erbyn enw'r ymgeisydd

Ffurflen yn parhau drosodd

Llofnodwyd		Dyddiad	
------------	--	---------	--

Swyddog Enwebu cofrestredig	<i>[enw'r blaid]</i>		
Llofnodwyd		Dyddiad	
Swyddog Enwebu cofrestredig	<i>[enw'r blaid]</i>		

**Nodiadau**

1. Rhaid i'r disgrifiad fod yn ddisgrifiad a gofrestrwyd o dan adran 28B o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
2. Os na chaiff y paragraff hwn ei gwblhau ni fydd arwyddlun cofrestredig yn ymddangos ar y papur pleidleisio yn erbyn enw'r ymgeisydd.

At ddefnydd swyddfa yn unig	Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrenna u cyntaf	Rhif
<b>Etholiadau Senedd Cymru</b>	<b>3 – Hysbysiad o asiant etholiad</b>			
Enw'r etholaeth:	Casnewydd Dwyrain			
Dyddiad yr etholiad:	6 Mai, 2021			

### Hysbysiad ymgeisydd o'i asiant etholiad

Yr wyf i (Enw'r ymgeisydd yn llawn):	
<i>Drwy hyn yn datgan mai enw a chyfeiriad fy asiant etholiad yw</i>	
Enw'r asiant:	
<i>Cyfeiriad fy asiant etholiad y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddo yw:</i>	
Cyfeiriad yr asiant yn llawn:	
Llofnod yr ymgeisydd (neu lofnod ar ran ymgeisydd):	
Dyddiad:	

### Cadarnhad o dderbyn gan asiant etholiad

Yr wyf i [yr asiant a enwir uchod] yn cadarnhau fy mod yn derbyn rôl asiant etholiad ar gyfer yr ymgeisydd a enwir uchod. Deallaf fod yn rhaid i mi gyflawni fy nyletswyddau yn unol â'r gyfraith. Deallaf y bydd cosbau os methaf â chyflawni fy nyletswyddau yn unol â'r gyfraith.	
Llofnod yr asiant	
Dyddiad	

### Manylion eraill yr asiant rhag ofn bod ymholiad (opsiynol – ni chânt eu cyhoeddi)

Rhif ffôn cartref:	
Rhif ffôn gwaith:	
Rhif ffôn symudol:	
Cyfeiriad e-bost:	

Cyflwynwch y ffurflen hon i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau

At ddefnydd swyddfa yn unig	Dyddiad derbyn	Amser derbyn	Llythrenna u cyntaf	Rhif
<b>Etholiadau Senedd Cymru</b>	<b>4 – Hysbysiad o is-asiant etholiad</b>			
Enw'r etholaeth	Casnewydd Dwyrain			
Dyddiad yr etholiad:	6 Mai, 2021			

Gall yr **asiant etholiad** benodi un neu fwy o is-asiantiaid i weithredu ar ei ran ledled yr etholaeth ond rhaid bod gan bob un ardal ar wahân. **Ni chaiff** ardaloedd is-asiantiaid **orgyffwrdd**.

Enw'r ymgeisydd:			
Enw'r etholaeth:		Dyddiad yr etholiad:	
<b>Manylion ac ardal yr is-asiant</b>			
Enw'r is-asiant:			
Cyfeiriad yr is-asiant y gellir anfon pob cais, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill iddo yw:			
(			
Ardal y penodiad (disgrifiwch yr ardal, e.e. ardal awdurdod lleol):			
<b>Llofnod yr asiant etholiad</b>			
Yr wyf yn datgan bod yr unigolyn a enwir uchod yn is-asiant			
Llofnod yr asiant etholiad:			
Dyddiad:			
<b>Cadarnhad o dderbyn gan is-asiant (opsiynol)</b>			
Deallaf fod yn rhaid i mi gyflawni fy nyletswyddau yn unol â'r gyfraith. Deallaf y bydd cosbau os methaf â chyflawni fy nyletswyddau yn unol â'r gyfraith			
Yr wyf yn cadarnhau fy mod yn derbyn rôl is-asiant ar gyfer yr ymgeisydd a enwir uchod			
Llofnod yr is-asiant:			
Dyddiad:			

Ffurflen yn parhau drosodd

**Manylion eraill yr is-asiant rhag ofn bod ymholiad (opsiynol – ni chânt eu cyhoeddi)**

Rhif ffôn cartref:		Rhif ffôn gwaith:	
Rhif ffôn symudol:			
Cyfeiriad e-bost:			

Cyflwynwch y ffurflen hon i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni hysbysu is-asiantiaid